

# Adroddiad Blynyddol 2022-23

menterabertawe.org

# Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Abertawe 2022-23

## Y Pwyllgor Rheoli

Mae aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn: Jaci Gruffudd (Cadeirydd), Saran Thomas (Is-Gadeirydd), Jane Altham Watkins (Trysorydd), Heini Gruffudd, Catrin Rowlands, Rhian Jones, Alun Chivers, Hannah Sams, Rhian Williams, Ann Williams, a Tomos Jones (ysgrifennydd). Mae Alun Rennolf yn aelod o'r pwyllgor sydd ddim yn gyfarwyddwr.

## Staffio

Roedd 2022-23 yn flwyddyn sefydlog o ran staffio heb unrhyw newidiadau yn staff craidd y Fenter. Roeddwn wedi hysbysebu am a recriwtio ambell i aelod o staff achlysurol i gyfrannu at ddigwyddiadau ac yn y siop. Mae rota o wirfoddolwyr yn parhau i gyfrannu at ddigwyddiadau megis y Caffi Bore Sadwrn.

## Gwaith y Fenter

### 1. Plant a theuluoedd

Cynhaliwyd **95** o weithgareddau i blant oedran cynradd yn ystod y flwyddyn 2022-23, gyda dros **7800** yn mynychu'r sesiynau yma. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd **17** o weithgareddau torfol i deuluoedd. Mynychodd oddeutu **2400** o blant, a **3100** o oedolion y ddarpariaeth yma.

Trefnwyd nifer o weithgareddau a digwyddiadau yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn cynnig cyfleoedd i blant oedran cynradd i gymdeithasu yn y Gymraeg tu hwnt i'r ysgol, a sicrhau bod rhieni yn derbyn y cyfle i fwynhau'r Gymraeg gyda'u plant. Yn ystod gwyliau'r Pasg, cynhaliwyd helfa drysor mewn parc lleol i blant a theuluoedd. Trefnwyd sioe theatr ryngweithiol i blant a theuluoedd yn ystod hanner tymor mis Mai ar safle Amgueddfa'r Glannau, a chynhaliwyd gweithdy celf i blant a theuluoedd ar yr un safle yn ystod gwyliau'r Haf. Yn ystod hanner tymor mis Chwefror, trefnwyd sioe theatr i blant a theuluoedd gan gwmni theatr Arad Goch yn neuadd Tŷ Tawe, a threfnodd y Fenter y ddarpariaeth blant a theuluoedd iaith Gymraeg fel rhan o ŵyl Croeso Abertawe. Roedd y ddarpariaeth yma ym Mhabell Cwtsh y digwyddiad yn cynnwys cyfleoedd chwarae a sesiynau stori a chân, yn ogystal â'r cyfle i rieni derbyn gwybodaeth bellach am gyfleoedd eraill i fwynhau a defnyddio'r Gymraeg.

Cynhaliwyd sesiynau haf a Nadolig "PlanTawe" yn ystod 2022-23. Mae hyn yn weithgaredd ar y cyd rhwng Menter Iaith Abertawe, Menter Iaith Castell-Nedd Port Talbot, a'r Mudiad Meithrin/Cymraeg i Blant. Mae'r cydweithio hyn yn parhau i gynnig cyfle rheolaidd i blant a theuluoedd mwynhau a defnyddio'r Gymraeg

gyda'i gilydd, gyda'r digwyddiadau Haf a Gaeaf yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg teuluoedd.

Cydweithiwn hefyd gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe ar y cynllun "Cymraeg yn y Cartref", yn cynnig sesiynau a gweithgareddau i blant tra bod eu rhieni yn derbyn gwersi Cymraeg. Ail-sefydlwyd y prosiect Clwb Llygod Bach ym mis Rhagfyr, gyda'r sesiynau yn rhedeg yn fisol wedi hynny. Mae'r clwb yma yn brosiect ar y cyd rhwng Menter Iaith Abertawe, Cymraeg i Blant, ac Amgueddfa Cymru, sy'n cynnig cyfleodd i deuluoedd ymweld â'r amgueddfa i fwynhau gweithgareddau gwahanol pob mis yn hollol rad ac am ddim. Darparwyd gweithgareddau a gwybodaeth iaith Gymraeg i blant a theuluoedd fel rhan o'r digwyddiad Sioe Awyr Cymru, a threfnwyd y ddarpariaeth iaith Gymraeg fel rhan o'r dathliadau Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn Amgueddfa'r Glannau.

Mae cynllun pontio amgen y Fenter wedi parhau i ddatblygu yn ystod y cyfnod yma. Rydym nawr yn cynnig sesiynau gemau cymdeithasol i'r disgyblion ar safleoedd y ddwy ysgol uwchradd pob hanner tymor, yn ogystal â chynnig sesiynau gwybodaeth i rieni fel rhan o nosweithiau pontio'r ysgolion. Roeddwn hefyd wedi darparu gweithgareddau fel rhan o wyliau pontio'r ysgolion yn ystod tymor yr haf. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ddigwyddiadau teuluol ysgolion trwy ddarparu gweithgareddau fel rhan o ddiwrnodau megis mabolgampau a ffeiriau ysgol, a mynychu digwyddiadau megis dathliadau 10 mlynedd Ysgol Gymraeg y Cwm. Mae'r gwaith hyn yn cynnig cyfleoedd pellach i deuluoedd mwynhau a defnyddio'r Gymraeg, ond hefyd cyfleoedd pellach i hyrwyddo a marchnata gwaith ehangach y Fenter.

## 2. Plant a phobl ifanc (11-25)

Cynhaliwyd **128** o weithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn 2022-23, gyda dros **6600** yn mynychu'r sesiynau yma.

Sefydlwyd sesiynau hyfforddi pêl-droed iaith Gymraeg mewn cydweithrediad â Cymdeithas CPD Abertawe. Mae'r sesiynau wythnosol yma yn cynnig cyfle i blant 8-16 mwynhau a defnyddio'r Gymraeg ar y cae chwarae, ond hefyd wedi cynnig hyfforddiant i grŵp o wirfoddolwyr 16-18 i allu hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddwn wedi adeiladu ymhellach ar y cynllun yma trwy gynnal 4 diwrnod o wersyll pêl-droed iaith Gymraeg dros y gwyliau haf. Hefyd yn ystod gwyliau'r haf, trefnwyd wythnos o gynlluniau chwarae mynediad agored a thaith gymdeithasol i ganolfan antur leol. Rydym hefyd yn parhau i redeg clybiau amser cinio wythnosol i CA3 yn y ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Cynhaliwyd amrywiaeth o sesiynau gemau buarth ac ymwybyddiaeth iaith yn yr ysgolion ail iaith yn ystod 2022-23. Mae'r gwaith yma yn bwysig wrth addysgu pobl ifanc yr ardal am hanes yr iaith, hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, a chynnig syniadau o sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod bywyd pob dydd. Yn ystod mis Medi, cyfrannwyd sesiynau at gynlluniau cynefino nifer o sefydliadau, gan gynnwys "Diwrnod Croeso" Coleg Gŵyr, sesiynau i chweched dosbarth newydd Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, a sesiynau i'r flwyddyn 7 newydd yng Nghanolfan Llanmadog.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau gyda'r bwriad o annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gyfrwng cerddoriaeth. Cynhaliwyd "Soundcheck Session" ar y cyd gyda'r Independent Venue Community i grŵp o bobl ifanc yn Nhŷ Tawe, gweithdai ysgol roc yn y ddwy ysgol uwchradd, a threfnwyd y cyfle i grŵp o bobl ifanc cwrdd â'r band Adwaith cyn gig yn y ddinas. Mae ein clybiau cerddoriaeth wythnosol, sy'n dysgu sgiliau megis cyfansoddi a recordio trwy gyfrwng y Gymraeg, hefyd yn parhau i redeg.

Darparwyd nifer o weithgareddau a digwyddiadau ychwanegol i blant a phobl ifanc fel rhan o'r ymgyrchoedd Cwpan y Byd. Cynhaliwyd lansiad cenedlaethol cystadleuaeth dylunio het bwced Mentrau Iaith Cymru yn Abertawe, gyda dros 5,400 yn cystadlu'n genedlaethol. Dosbarthwyd llyfrynnau gweithgareddau "Mr Bwced" i bobl ysgol iaith Gymraeg yn yr ardal, a threfnwyd Cynghrair Pêl-droed Ffantasi rhwng yr ysgolion i annog y disgyblion i ymwneud â'r gystadleuaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o ymgyrchoedd cenedlaethol eraill Mentrau Iaith Cymru, trefnodd y Fenter i ysgolion lleol llofnodi crysau i ddiolch i'r tîm, yn ogystal â threfnu nifer o furluniau o feintiau gwahanol ar draws yr ardal i ddathlu Cymreictod diwylliant pêl-droed Cymru. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd nifer o sesiynau "Gorau Canu Cyd Ganu" cymdeithasol yn yr ysgolion a cholegau lleol.

Rydym wedi parhau i drefnu adnoddau a gweithgareddau i ddathlu diwrnodau penodol eraill yn y calendr Cymraeg, er enghraifft trwy drefnu perfformiadau gan y cerddor Mei Gwynedd mewn dwy ysgol wahanol i nodi Diwrnod Owain Glyndŵr. Roedd nifer o weithgareddau i ddathlu Diwrnod Shwmae, gan gynnwys trefnu cwis yn un o ysgolion ail iaith yr ardal. Roeddwn hefyd wedi trefnu wythnos gyfan o weithgareddau amrywiol i ddathlu Dydd Miwsig Cymru, yn ogystal â chynnal dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn Nhŷ Tawe a thu hwnt. Trwy Siop Tŷ Tawe, rydym hefyd wedi parhau i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol i blant megis ffeiriau llyfrau.

## 3. Cymunedol

Cynhaliwyd **135** o weithgareddau cymunedol i oedolion yn ystod y flwyddyn 2022-23, gyda dros **4600** yn mynychu'r ddarpariaeth yma.

Mae'r "Caffi Bore Sadwrn", bore coffi wythnosol i siaradwyr o bob lefel, wedi parhau trwy gydol y cyfnod yma. Mae sesiwn siarad rhithiol, y "Cylch Clebran", hefyd wedi parhau dros Zoom ar fore dydd Mercher.

Trefnwyd nifer fawr o weithgareddau a digwyddiadau cerddorol yn ystod y cyfnod yma. Ar ôl sefydlu am y tro cyntaf yn 2021, trefnodd a chynhaliodd y Fenter y digwyddiad "*Gŵyl Tawe*" eto yn ystod 2022 ar safle'r Railway yng Nghilâ. Roedd y Fenter yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gan Cyngor Celfyddydau Cymru i gynnal digwyddiadau cerddorol rheolaidd yn yr ardal yn ystod y cyfnod yma, ac roedd y digwyddiadau yma wedi cychwyn yn ystod mis Medi 2022. Yn ogystal â hyn, trefnodd a chydlynodd y Fenter elfennau iaith Gymraeg digwyddiadau ehangach megis Gŵyl Ymylol Abertawe a'r digwyddiad Nightworks.

Rydym hefyd wedi dangos gemau pêl-droed a rygbi Cymru'n fyw yn y ganolfan yn ystod y cyfnod yma, a chynhaliwyd nosweithiau cymdeithasol misol o gemau a chwrw. Trefnwyd ymweliad o sioe theatr ddwyieithog wedi ei dargedu yn benodol at siaradwyr newydd, Gafael Tir, trwy'r cynllun Noson Allan. Ail-sefydlwyd Clwb Darllen Tŷ Tawe, sy'n parhau i redeg yn fisol ac yn denu aelodau newydd. Trefnwyd nifer o weithgareddau amgen yn ystod cyfnod Cwpan y Byd, gan gynnwys noson o ganu cymdeithasol i oedolion yn Nhŷ Tawe fel rhan o'r ymgyrch "Gorau Canu Cyd Ganu". Mae digwyddiadau cymunedol eraill sydd wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod yma yn cynnwys arddangosfa celf, nosweithiau cwis, boreau coffi mewn lleoliadau amrywiol (yn ychwanegol i'r Caffi Bore Sadwrn), a nifer o weithgareddau fel rhan o'r cynllun "Siaradwyr Newydd". Trwy Siop Tŷ Tawe, rydym wedi hefyd gallu trefnu digwyddiadau llenyddol i oedolion, gan gynnwys lansiadau llyfr yn Nhŷ Tawe ac yng Nghanolfan Celfyddydol y Taliesin.

## 4. Seilwaith

Rydym wedi parhau i gefnogi sefydliadau a mudiadau eraill i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn ystod y cyfnod yma. Rydym wedi parhau i gefnogi'r Canolfan Amgylcheddol i gynnal bore coffi misol i'r staff ac eraill, yn ogystal â chefnogi sefydliadau megis Technocamps a Cymdeithas CPD Abertawe i ehangu eu darpariaeth iaith Gymraeg. Yn ystod y cyfnod yma, rydym hefyd wedi cefnogi Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt i ail-gychwyn am y tro cyntaf ers Covid-19 trwy gynnig cymorth ar leoliad ac wrth hyrwyddo. Mae'r gwaith hyn yn parhau i gryfhau'r Gymraeg yn y gymuned, yn adeiladu perthnasoedd gweithio cadarn, ac yn creu llwybrau clir a naturiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

Ar y cyd gyda Menter Iaith Castell-Nedd Port Talbot, rydym yn parhau i arwain ar drefniadau'r Fforwm Iaith er mwyn annog cydweithio strategol er budd y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod yma, rydym wedi gweithredu newid yn strwythur y Fforwm er mwyn sefydlu pedwar is-bwyllgor gweithredol sy'n cwrdd yn fwy rheolaidd rhwng prif gyfarfodydd y Fforwm cyfan. Mae'r gwaith hyn wedi galluogi ni i gynyddu'r hyn mae'r Fforwm yn cyflawni, yn ogystal â chryfhau perthnasau gweithio rhwng y mudiadau sy'n rhan o'r Fforwm. Mae'r Fenter yn parhau i fod yn aelod o bwyllgor Addysg Gymraeg Abertawe ac wedi cyfrannu tuag at ddatblygiad y CSCA trwy fynychu cyfarfodydd a chynnig ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am weithrediad y CSCA, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyrraedd y deilliannau amrywiol.

Mae'r Fenter yn parhau i gefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd cenedlaethol megis y cynllun "Siaradwyr Newydd", yr ymgyrchoedd murluniau, y gystadleuaeth dylunio het bwced, a'r Cwis Dim Clem. Mae'r Fenter wedi parhau i ddatblygu adnoddau digidol iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod yma, gan gynnwys datblygiadau pellach i'n sianel AM Cymru a phecynnau adnoddau i ddathlu diwrnod penodol yn y calendr. Mae'r Fenter hefyd yn parhau i gynnig a chydlynu cyfleoedd i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd yn ystod sesiynau hyfforddi pêl-droed, cynlluniau chwarae a gweithgareddau eraill i blant, yn Siop Tŷ Tawe, ac mewn digwyddiadau celfyddydol amrywiol.

## 5. Gweithio mewn partneriaeth

Roedd y Fenter wedi parhau i gydweithio mewn partneriaeth agos gyda nifer o fudiadau yn ystod 2022-23.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe (DCABA) ar nifer o weithgareddau a phrosiectau. Rydym yn parhau i drefnu a hyrwyddo digwyddiadau sy'n addas i siaradwyr newydd yn uniongyrchol trwy DCABA yn defnyddio'r brandio Mwynhau'r Gymraeg, ac mae gan bob myfyriwr DCABA cynnig parhaus am docynnau am ddim i unrhyw weithgaredd fel rhan o brosiect digwyddiadau cerddoriaeth fyw'r Fenter. Darparwyd sesiynau rhithiol i ddosbarthiadau newydd DCABA yn ystod mis Medi er mwyn hyrwyddo gwaith y Fenter a chyfleoedd i'r myfyrwyr mwynhau a defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Roeddwn hefyd wedi cydweithio ar y cynllun "Cymraeg yn y Cartref", ac i ddarparu adloniant diwedd tymor dros Zoom yn ystod y cyfnod yma. Cydweithiwn yn agos gyda Dysgu Cymraeg, Mentrau Iaith Cymru, a Menter Iaith Castell-Nedd Port Talbot ar y cynllun "Siaradwyr Newydd". Roedd y cynllun yma'n

cynnwys ffair cymhathu, “Agor y Drws”, teithiau cerdded “Ar Droed”, noson gerddorol yn Nhŷ Tawe, a’r rownd ranbarthol o’r “Cwis Mawr”.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio gyda Prifysgol Abertawe yn ehangach, er enghraifft trwy gyfrannu at ddigwyddiadau megis “Gŵyl y Gymraeg”, a’r “Croeso Cymraeg” i fyfyrwyr newydd. Rydym hefyd yn cydweithio gyda’r Gymdeithas Gymraeg i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd i’r aelodau cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio gyda Technocamps yn ystod y cyfnod yma i gynnig gweithdai gwyddonol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio gyda Menter Iaith Castell-Nedd Port Talbot a’r Mudiad Meithrin/Cymraeg i Blant ar y digwyddiadau “PlanTawe”, Urdd Gobaith Cymru ar y clybiau cerddoriaeth wythnosol, a Coleg Gŵyr Abertawe ar ystod eang o ddigwyddiadau a dathliadau. Cydweithiwyd yn agos gyda’r Swansea Music Hub a Cyngor Abertawe ar y digwyddiadau Gŵyl Ymylol Abertawe a’r Gŵyl Croeso yn ystod y cyfnod yma.

Rydym wedi datblygu yn sylweddol ar ein partneriaeth gydag Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn yn cynnwys y sesiynau Clwb Llygod Bach, yn ogystal ag ail-gychwyn y sesiynau Dewch i Ganu sy’n cynnig cyfleoedd i bobl dysgu ac ymarfer y Gymraeg trwy ganu. Rydym hefyd wedi cyd-weithio gyda’r amgueddfa ar gynlluniau ar gyfer Gŵyl Tawe, a fydd yn ehangu i leoliad newydd yn yr amgueddfa ym mis Mehefin 2023. Mae lleoliad canolog yr amgueddfa, yn ogystal â’r nifer o bobl sy’n gallu mynychu digwyddiad yn y gofod sydd ar gael, yn galluogi ni i gynyddu cyrhaeddiad a sgôp ein gweithgareddau yn sylweddol.

## Crynodeb

Gallwn edrych ymlaen at 2023-24 yn hyderus bydd yn flwyddyn arall o gynnydd yn weithgareddau'r Fenter. Hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn i bob aelod o’r Pwyllgor am eu cefnogaeth i’r Fenter ac i fi fel Cadeirydd. Gyda’ch cefnogaeth ac ymrwymiad rydym wedi ehangu gweithgareddau'r Fenter a hefyd wedi ymestyn i feysydd newydd. Wrth gwrs mae’r diolch enfawr i Tomos sy’n llywio popeth, Anys, Dafydd a Janet. Hebddyn nhw byddai’r Fenter ddim yn bodoli.

Mae diolch arbennig hefyd i Rhian a Catrin sy'n trefnu Tŷ Tawe ac yn gweithio ar newid statws elusennol Tŷ Tawe.

**Jaci Gruffudd**

Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli